Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

## 17 Ionawr, 2025

**TEITL:** Llywodraethu'r CBC: Is-bwyllgor Lles Economaidd

**AWDUR:** Alwen Williams, Prif Weithredwr Dros Dro y CBC
Iwan Evans, Swyddog Monitro

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Cynnig Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer Is-bwyllgor Lles Economaidd y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd yr Is-bwyllgor yn arwain ac yn cynghori'r CBC ar faterion sy'n ymwneud â'i bŵer statudol i wella neu hyrwyddo lles economaidd Gogledd Cymru. Mae'r Cylch Gorchwyl yn canolbwyntio'n benodol ar y Cynllun Twf a'i drosglwyddiad arfaethedig i'r CBC.

### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod y CBC yn cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl arfaethedig (***Atodiad 1***) ar gyfer yr Is-bwyllgor Lles Economaidd.

2.2. Bod y CBC yn cymeradwyo comisiynu gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd, Cyllid, TG, Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu, Iechyd a Diogelwch, a Chyfieithu drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gyda Chyngor Gwynedd o fewn y cyllidebau a gymeradwywyd.

2.3. Bod y CBC yn cytuno i ddirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr Dros Dro y CBC, ac yn unol a'r adroddiad yma, i gytuno a chwblhau Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) ar gyfer y gwasanaethau yn 2.2 uchod gyda Chyngor Gwynedd.

### 3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) wedi cynnig Strwythur Llywodraethu fel sylfaen i drafodaethau gyda phartneriaid y Cynllun Twf ynghylch trosglwyddo'r Cynllun Twf i reolaeth y CBC. Mae'r Is-bwyllgor Lles Economaidd yn gydran allweddol o'r strwythur arfaethedig hwn. Mae'r Cylch Gorchwyl yn amlinellu cyfrifoldebau'r Is-bwyllgor, ac yn darparu fframwaith gliriach i ymgysylltu a hwyluso trafodaethau mwy ystyrlon, gyda mwy o ffocws, gyda rhan-ddeiliaid ynghylch ei ddiben a'i amcanion.

3.2. Bydd y CLG, gyda Chyngor Gwynedd, yn nodi'r adnoddau a'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth o wasanaethau cefnogi corfforaethol a statudol sy'n galluogi'r CBC i weithredu ei ddyletswyddau a'i bwerau yn unol â Rheoliadau Sefydlu'r CBC. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael ei restru ym mhwynt 2.2.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Rhwng mis Rhagfyr 2021 a mis Ionawr 2022, roedd Cabinet a Phwyllgorau Gweithredol pob un o'r chwe Awdurdod Lleol, wedi cytuno mewn egwyddor y dylid trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd Uchelgais) trwy gytundeb dirprwyo i'r CBC. Eglurwyd bod penderfyniad yr adroddiad hwn yn caniatáu i'r trosglwyddiad ddechrau a chael ei gwblhau. Eglurwyd bod y fframwaith statudol a sefydlu'r CBC yn golygu bod angen symud ymlaen â'r trosglwyddiad arfaethedig.

4.2. Deilliodd yr ysgogiad strategol cyffredinol i drosglwyddo'r Cynllun Twf i'r CBC o'r gydberthynas mewn aelodaeth rhwng y Bwrdd Uchelgais a'r CBC, y dymuniad i osgoi gormodedd o gyrff rhanbarthol sydd â swyddogaethau tebyg, a manteision ac effeithlonrwydd cyfreithiol a gweithredol amrywiol y CBC yn gweithredu fel ei endid corfforaethol ei hun.

4.3. Ar 6 Medi, 2024, roedd y CBC yn cefnogi'r strwythur llywodraethu a awgrymir ar gyfer Lles Economaidd gyda'r ddarpariaeth mai Arweinyddion Awdurdod Lleol yw'r aelodau a enwebir o'r Is-bwyllgor Lles Economaidd. Mae ***Atodiad 2*** yn darlunio'r strwythur a'r aelodaeth arfaethedig.

4.4. Yn y cychwyn, ar ôl trosglwyddo, bydd yr Is-bwyllgor Lles Economaidd yn canolbwyntio ar yrru'r Cynllun Twf yn ei flaen – ac felly mae'r Cylch Gorchwyl arfaethedig yn adlewyrchu'r ffocws hwn. Wrth i ddealltwriaeth ddatblygu am y diffiniad Lles Economaidd ar lefel ranbarthol, mi fydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hyn.

4.5. Wrth i'r CBC ddatblygu ac aeddfedu ei endid cyfreithiol ei hun, bydd angen adnoddau priodol i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r pwerau statudol ar sail barhaol. Hyd yma, a thra mae adnoddau'r CBC yn cael eu lletya gan Gyngor Gwynedd, maent wedi cael eu sicrhau naill ai ar sail secondiad neu gontract a thrwy drosoli CLG yr awdurdod lletya presennol.

4.6. Wrth ddatblygu CLG penodol rhwng Cyngor Gwynedd a'r CBC, cynigir bod adnoddau'r CBC fel y'u rhestrir yn cael eu hadnabod a'u darparu i gyflawni'r CLG:

(a) Gwasanaeth Democrataidd - 2 FTE
(b) Gwasanaeth Cyfreithiol - 1 FTE (i gynnwys Dirprwy Swyddog Monitro) yn ogystal ag amser y Swyddog Monitro – 0.2 FTE
(c) Gwasanaeth Cyllid – Cyfrifeg (1FTE ynghyd â chyfran o staff Cyfrifeg allweddol eraill), Cyflogau, Rheolaeth Trysorlys a Buddsoddiadau, Taliadau, Incwm, Systemau, Archwilio Mewnol a Phrif Swyddog Ariannol (Swyddog Adran 151) 0.2FTE
(d) Gwasanaeth Corfforaethol – Adnoddau Dynol, Dysgu a Datblygu, Iechyd a Diogelwch, Cyfieithu (ffi fesul cyfarfod ac am bob 1,000 o eiriau a gyfieithwyd)
(e) Technoleg Gwybodaeth

4.7. Mae angen symud ymlaen gyda'r CLG er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cefnogol yn cael eu parhau yn ddi-dor a bod prosesau recriwtio yn gallu cychwyn. Yn enwedig ar gyfer (a) i (c). Wrth i'r Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam ddatblygu, bydd angen adolygu'r gofynion cefnogol fel rhan o'r prosiect hwnnw. Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio cymorth arbenigol gan gwmnïau cyfreithiol allanol ar y prosiectau strategol allweddol. Mae darpariaeth CLG, hyd yn oed ar sail gychwynnol, yn galluogi'r CBC i sicrhau'r gwasanaethau sydd eu hangen, gyda'r sicrwydd ychwanegol bod hyn yn cael ei ddarparu gan dîm ehangach a all ddarparu dyfnder a gwydnwch. Wrth i'r sefydliad ddatblygu bydd lle i adolygu'r trefniadau.

4.8. Ceisir cefnogaeth y CBC i gymhwyso'r dull hwn am gyfnod cychwynnol o 3 blynedd. Gall y Prif Weithredwr dros dro gytuno ar gynnwys gweithredol y CLG o fewn cwmpas y penderfyniad hwn a'r cyllidebau a ddyrannwyd.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Bydd gofynion y CLG a restrir ym mharagraff 4.6 yn cael eu hariannu o fewn y cyllidebau Gwasanaethau Cefnogol a gymeradwywyd ar gyfer y CBC (Eitem 12 o Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, 17 Ionawr, 2025) yn ogystal â chyllideb y Cynllun Twf a fydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar 14 Chwefror, 2025.

## 6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. O dan y Rheoliadau Sefydlu, rhoddwyd y swyddogaeth lles economaidd i'r CBC, lle gall wneud unrhyw beth y mae'n ystyried sy'n debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd ei ardal. Mae cyflawni'r Cynllun Twf yn rhan o arfer y swyddogaeth yma. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r dyletswyddau a'r swyddogaethau statudol, yn ogystal â'r adnoddau llywodraethu a democrataidd sydd eu hangen. Mae'r CBC angen y gwasanaethau cefnogol angenrheidiol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau a'i ymrwymiadau.

---

## ATODIADAU:

| | |
|---|---|
| Atodiad 1: | Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Lles Economaidd |
| Atodiad 2: | Strwythur Llywodraethu Arfaethedig y CBC: Lles Economaidd |

---

## YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**

Cyd-awdur yr adroddiad.

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**

"Mae'r wybodaeth ariannol sydd yn yr adroddiad yma wedi bod yn destun asesiad fanwl gan swyddogion y gwasanaeth Cyllid a credaf eu bod yn adlewyrchiad priodol o'r anghenion, a'r adnoddau fydd eu hangen wrth symud ymlaen. Rwyf yn fodlon fod cynnwys yr adroddiad wedi bod yn destun herio manwl o safbwynt llywodraethiant, cyfreithiol ac ariannol.

Rwyf o'r farn fod y Cylch Gorchwyl arfaethedig ar gyfer yr Is-Bwyllgor Lles Economaidd yn rhesymol ac rwyf yn ei gefnogi."